



# Cofrestru os cymhwysoch chi'r tu allan i'r Deyrnas Unedig

Mae'r dudalen hon i weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd y tu allan i'r DU, sydd am gofrestru i weithio yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 2 November 2022

Diweddariad olaf: 15 May 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cofrestru-os-cymhwysoch-chir-tu-allan-ir-deyrnas-unedig> am y fersiwn diweddaraf.

**Mae'r dudalen hon i weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd y tu allan i'r DU, sydd am gofrestru i weithio yng Nghymru.**

Cynnwys y dudalen

1. [Cyn i chi wneud cais](#)
2. [Cyrff rheoleiddio eraill y DU](#)
3. [Llenwi cais cymhwyster rhyngwladol](#)
4. [Cymeradwyo'ch cais](#)
5. [Ffioedd](#)
6. [Rhestr cymwysterau gwaith cymdeithasol rhyngwladol](#)
7. [Ystadegau am ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol](#)
8. [Cysylltwch â ni](#)

Cynnwys y dudalen

1. [Cyn i chi wneud cais](#)
2. [Cyrff rheoleiddio eraill y DU](#)
3. [Llenwi cais cymhwyster rhyngwladol](#)
4. [Cymeradwyo'ch cais](#)
5. [Ffioedd](#)
6. [Rhestr cymwysterau gwaith cymdeithasol rhyngwladol](#)
7. [Ystadegau am ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol](#)
8. [Cysylltwch â ni](#)

Os ydych chi erioed wedi cofrestru gyda:

- [Social Work England](#)
- [Scottish Social Services Council](#)
- [Northern Ireland Social Care Council](#)

rhaid i chi e-bostio [cymwysteraurhyngwladol@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cymwysteraurhyngwladol@gofalcymdeithasol.cymru) cyn i chi wneud cais er mwyn rhoi gwybod eich bod am wneud cais gyda ni.

Ni fydd angen asesu eich cymhwyster yr eildro.

## Cyn i chi wneud cais

Rhaid bod gennych:

- y dystysgrif ar gyfer eich cymhwyster gwaith cymdeithasol yn barod
- tystiolaeth o 130 diwrnod o leiaf o ymarfer gwaith cymdeithasol wedi'i oruchwylio a'i asesu neu brofiad gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso.

Byddwn yn gwirio bod eich cymhwyster a'ch profiad gwaith cymdeithasol yn cyd-fynd â fframwaith gradd Cymru a meincnodau pwnc cytunedig y DU ar gyfer gwaith cymdeithasol.

Nid oes angen tystiolaeth arnom o'ch hyfedredd mewn Saesneg i gofrestru. Ond mae'n bosibl y bydd gan gyflogwyr eu gofynion eu hunain, felly trafodwch hyn gyda nhw'n uniongyrchol.

Os ydych chi'n dychwelyd i ymarfer gwaith cymdeithasol ar ôl tair blynedd neu fwy, bydd angen i chi:

- ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymarfer gwaith cymdeithasol cyfoes
- bodloni gofynion [dychwelyd i ymarfer](#).

## Cyrff rheoleiddio eraill y DU

Os penderfynwch chi weithio'r tu allan i Gymru, bydd angen i chi gysylltu â'r corff rheoleiddio ar gyfer y wlad honno.

Yn y DU, y rhain yw:

- [Social Work England](#)
- [Northern Ireland Social Care Council \(NISCC\)](#)
- [Scottish Social Services Council \(SSSC\)](#).

## Llenwi cais cymhwyster rhyngwladol

Os dyma'r tro cyntaf i chi gofrestru yn y DU, bydd angen i chi lenwi [ffurflen cywerthedd cymhwyster](#).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu manylion llawn eich:

- lleoliadau ymarfer wedi'u goruchwylio a'u hasesu
- cyflogaeth gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso. Dylai'r wybodaeth gynnwys manylion cyswllt ar gyfer y gweithiwr cymdeithasol goruchwylio ac asesu o'ch lleoliadau. Neu, gallai fod yn gyswllt o'r brifysgol y cymhwysoch ohoni.

## Llenwi'r cais cofrestru

Bydd angen i chi greu cyfrif ar ein gwefan [GCCarlein](#) er mwyn llenwi'r cais cofrestru.

## Dogfennau

Bydd angen i chi:

- gael copïau wedi'u llofnodi a'u dyddio gan unigolyn cydnabyddedig sydd wedi gweld y fersiynau gwreiddiol
- darparu cadarnhad eich bod yn bwriadu ymarfer yng Nghymru
- os yw'n bosibl, darparu tystiolaeth o'ch gwiriad cofnodion troseddol diweddaraf
- talu'r ffi, sef £350.

Rhaid i chi lanlwytho neu e-bostio copïau o'r canlynol i'ch cyfrif [GCCarlein](#):

- dogfennau adnabod wedi'u gwirio
- tystysgrif cymhwyster wedi'i gwirio
- trawsgrifiad y cwrs wedi'i wirio
- tystiolaeth ategol wedi'i gwirio
- [ffurflen asesu cywerthedd cymhwyster](#) (os na wnaed hynny eisoes).

## Cymeradwyo'ch cais

Gwnewch yn siŵr eich bod yn [darllen ein canllawiau cymeradwyo](#).

**Os ydych chi eisoes yn gweithio yng Nghymru** mae'r cais ar-lein yn gofyn i chi ddewis y sawl a fydd yn gwirio'ch dogfennau adnabod a chymeradwyo'ch cais. Bydd yn dod o restr o unigolion cymeradwy.

**Os nad ydych chi eisoes yn gweithio yng Nghymru** bydd angen i chi lenwi manylion eich cymeradwywr eich hunan. Bydd angen i chi argraffu'r ffurflen gais a mynd â hi i'ch cymeradwywr ei gwirio, ei llofnodi a'i dyddio. Yna, sganiwch a lanlwytho'r fersiwn hon wedi'i llofnodi i'ch cyfrif GCCarlein.

## Ffioedd

Bydd angen i chi dalu ffi pan fyddwch yn gwneud cais i gofrestru. Dysgwch ragor ar ein [tudalen ffioedd](#).

## Rhestr cymwysterau gwaith cymdeithasol rhyngwladol

Gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i chi os oes gennych gymhwyster gwaith cymdeithasol o dramor ac rydych chi am wneud cais i gofrestru'n weithiwr cymdeithasol yng Nghymru.

Dyma restr o gymwysterau gwaith cymdeithasol o dramor rydym wedi'u hasesu ac rydym yn ystyried eu bod o'r un safon â chymwysterau wedi'u cymeradwyo yn y DU. Mae'r wybodaeth yn y rhestr hon yn gynghorol a byddwn yn ei diweddarau a'i diwygio.

Gallwch chi gael mynediad i'r rhestr yma: [Cymwysterau gwaith cymdeithasol rhyngwladol](#)

Os ydych chi'n meddwl bod eich cymhwyster yn ymddangos ar y rhestr, bydd angen i chi ddarparu copi o'r tystysgrif a thrawsgrifiad y cwrs (neu debyg) fel y gallwn ni asesu eich cymhwyster yn erbyn y cymwysterau ar y rhestr. Byddwn yn gwirio'ch cymhwyster yn erbyn ein cofnodion presennol i wneud yn siŵr eu bod yn gyson.

Mae rhai cymwysterau hefyd yn gofyn i ni asesu hyfforddiant a phrofiad gwaith cymdeithasol ychwanegol cyn y gallwn ni eu derbyn. Dylech chi ddarparu manylion am unrhyw gymwysterau neu brofiad ychwanegol sydd gennych yn eich cais i gofrestru.

Bydd angen i rai ymgeiswyr gwblhau prawf gallu hefyd i asesu os ydyn nhw'n bodloni'r safonau sy'n ofynnol i gofrestru. Bydd angen i rai ymgeiswyr gwblhau cyfnod o addasu, pan fyddan nhw'n ymarfer neu'n hyfforddi dan oruchwyliaeth.

Efallai bydd angen i ni ofyn i'ch darparwr addysg am ragor o wybodaeth i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparoch chi yn gywir ac yn bodloni'r safonau gofynnol.

Os nad yw eich cymhwyster ar y rhestr hon, bydd angen i ni wneud asesiad llawn.

[Cewch ragor o wybodaeth yma.](#)

Fel rhan o'n gwaith, gallen ni rannu gwybodaeth gyda thrydydd partïon, fel [UK ENIC](#).

Gweler ein [polisi preifatrwydd](#) am ragor o wybodaeth.

## **Ystadegau am ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol**

Ers 1 Hydref 2022, rydyn ni wedi:

- derbyn 481 cais gan bobl a gymhwysodd y tu allan i'r DU
- cofrestru 233 person sydd wedi cymhwyso y tu allan i'r DU. Nodwch y gallai'r pobl hyn fod wedi gwneud cais cyn 1 Hydref 2022.

Mae 359 person a gymhwysodd y tu allan i'r DU ar y Gofrestr.

## **Cysylltwch â ni**

Os oes gennych gwestiwn, e-bostiwch:

[cymwysteraurhyngwladol@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cymwysteraurhyngwladol@gofalcymdeithasol.cymru).